# Arbrofi

## Enghraifft Cwestiynau cais

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen yma i **ddrafftio** eich cais.

Mae angen cyflwyno'r holl atebion ar y ffurflen gais ar-lein ac nid fel dogfen atodedig.

Mewngofnodwch i https://porth.celf.cymru/ i gyflwyno eich cais ar gyfer Arbrofi.

### Cysylltu â chi

Pan fyddwch chi'n mewngofnodi i'r ffurflen gais bydd angen i chi ddweud wrthym ni pwy sydd angen i ni gysylltu ag ef a pha iaith y dylem ni gysylltu â nhw ynddi.

Bydd hyn yn cynnwys:

• Cyswllt gweinyddwr y porth (y person sydd â'r manylion mewngofnodi ac sy'n rheoli ceisiadau a gyflwynir ar porth.celf.cymru – fel arfer y person sy'n rheoli'r cyllid hefyd!)

• Pennaeth

• Yr athro dynodedig ar gyfer eich ymholiad. Bydd angen i chi hefyd ddarparu cod ysgol 7 digid eich ysgol (Gwiriwch ar https://mylocalschool.gov.wales/?lang=cy os nad ydych chi'n siŵr beth yw cod eich ysgol)

### Yn eich cais, bydd angen ichi ateb y cwestiynau canlynol:

1. Rhowch ddisgrifiad byr, gan amlinellu pam mae eich ysgol â diddordeb mewn cymryd rhan yn Arbrofi? Pam mai nawr yw'r amser iawn i'ch ysgol gymryd rhan? (peidiwch â nodi mwy na 250 o eiriau)

2. Pa heriau neu gyfleoedd o fewn cynllun datblygu eich ysgol hoffech chi ganolbwyntio arno drwy'r ymholiad hwn?
(peidiwch â nodi mwy na 250 o eiriau)

3. Ar ba faes/meysydd ydych chi'n rhagweld y byddwch chi'n canolbwyntio eich ymholiad? Datblygu Llythrennedd / Iechyd a Lles / Dysgu Creadigol ar draws y cwricwlwm. Eglurwch yn fyr pam eich bod chi wedi dewis y maes hwn a sut mae'n

Dysgu Creadigol Creative Learning Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru Part Funded by Welsh Government

cysylltu â blaenoriaethau cyfredol eich ysgol.
(peidiwch â nodi mwy na 250 o eiriau)

4. Dywedwch wrthym am yr athro dynodedig a fydd yn arwain yr ymholiad hwn – dylai hwn fod yn rhywun sydd ar gael ar gyfer sgyrsiau cynllunio, sydd ar gael drwy gydol wythnos waith yr ysgol, yn eiriolwr brwd dros yrru newid ymlaen ac yn gallu creu hyblygrwydd yn ei amserlen i ymgysylltu'n llawn â'r rhaglen.

   Beth yw eu rôl yn yr ysgol, pa grwp o ddysgwyr fyddan nhw'n gweithio gydag ef a pham maen nhw mewn sefyllfa dda i arwain yr ymchwiliad hwn? Cofiwch gynnwys eu henw a'u manylion cyswllt.
   (peidiwch â nodi mwy na 250 o eiriau)

5. Bydd angen i chi **dicio blwch** i gadarnhau bod eich pennaeth yn cefnogi'r athro dynodedig i ymrwymo i'r canlynol os yw'n llwyddiannus

- Mynychu un diwrnod hyfforddi gorfodol
  (Gogledd – 14 Ion / Canolbarth – 20 Ion / De 22 Ion).
- Arwain yr ymholiad gydag un dosbarth neu grŵp dysgwyr.
- Ymgysylltu'n llawn â'r Partner Dysgu Creadigol.

Noder bod cytuno i'r ymrwymiadau uchod yn amod ar gyfer grant a gall methu â chynnal yr ymrwymiad hwn arwain at ddirymu eich grant.

## Iaith

Sut gallai cymryd rhan yn Arbrofi gyfrannu at ddatblygu sgiliau Iaith Gymraeg a/neu godi a gwella ymwybyddiaeth ddiwylliannol o fyw yng Nghymru?

## Disgyblion

Yn fras, pa ganran o'ch cais sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â'r grwpiau canlynol?

Pobl 0-11 oed

Pobl 12-16 oed

Beth yw nifer y disgyblion sy'n cymryd rhan o bob grŵp blwyddyn (derbyn – blwyddyn 11)

Dysgu Creadigol Creative Learning Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru Part Funded by Welsh Government